



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Cynllun diogelwch Llangurig yr A470

Dyddiad cyhoeddi: 4 Mawrth 2021
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 1 Ebrill 2021

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Trosolwg

Mae Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, ar ran Llywodraeth Cymru, yn ymchwilio i Welliannau Diogelwch ar y Rhwydwaith Cefnffyrdd yng Nghanolbarth Cymru ar hyn o bryd.

Sut i ymateb

Mae'r Ymgynghoriad Cyhoeddus yn cynnwys cyfres o gwestiynau penodol, a byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu eich ymateb iddynt erbyn 1 Ebrill 2021. Gallwch ymateb drwy un o'r ffyrdd canlynol:

Ar-lein: Trwy lenwi'r Ffurflen Ymateb ar wefan y prosiect: <https://llyw.cymru/a470-llangurig-cynllun-diogelwch>

E-bost: Trwy lenwi'r Ffurflen Ymateb sydd ar ddiwedd y ddogfen hon a'i hanfon drwy e-bost i ymholiadau@acgcc.org.uk gyda'r pennawd 'Cynllun Diogelwch Llangurig yr A470'

Post: Trwy lenwi'r Ffurflen Ymateb sydd ar ddiwedd y ddogfen hon a'i phostio i:

Cynllun Diogelwch Llangurig yr A470
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth,
Sarn Mynach,
Cyffordd Llandudno,
LL31 9RZ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Gwefan y prosiect: <https://llyw.cymru/a470-llangurig>

Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

E-bost: Llenwch y Ffurflen Ymateb ar ddiwedd y ddogfen hon a'i hanfon drwy e-bost i ymholiadau@acgcc.org.uk gyda'r pennawd 'Cynllun Diogelwch Llangurig yr A470'

Mae'r ddogfen hon
hefyd ar gael yn
Saesneg:

[A470: Llangurig safety scheme](#)

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgwymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
CAERDYDD,
CF10 3NQ.

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Croeso

Mae Llywodraeth Cymru ac Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn eich croesawu i'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn. Rydym yn cynnal yr ymgynghoriad hwn i gyflwyno ein cynnig ar gyfer gwella gwella'r A470 ger cylchfan Llangurig sy'n rhan o Raglen Cynlluniau Diogelwch Canolbarth Cymru ac yn gofyn am eich sylwadau ary cynnig.

Cyflwyniad a Chrynodeb Byr

Mae'r A470 yn rhan o'r rhwydwaith Cefnffyrdd yng Nghymru, sy'n cael ei reoli gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Gorllewin Cymru (NMWTRA) ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r A470 yn darparu un o'r llwybrau cyswllt allweddol rhwng Gogledd a De Cymru. Mae'r ffordd hon yn llwybr allweddol i dwristiaid ac i gludo nwyddau ac mae'n darparu cysylltiadau rhwng sawl cymuned yng Nghanolbarth Cymru.



Cylchfan Llangurig yr A470

Rhaglen Cynlluniau Diogelwch Canolbarth Cymru Trosolwg ac Amcanion

Trosolwg o'r Astudiaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi angen i gynnal gwelliannau mewn mannau cul ar y Rhwydwaith Cefnffyrdd ledled Cymru er mwyn gwella diogelwch, cydnherthedd a symud ar hyd y rhwydwaith trafnidiaeth. Arweiniodd hyn at fenter i ddatblygu strategaeth ar gyfer cynlluniau diogelwch ar rwydwaith Cefnffyrdd Canolbarth Cymru.

Mae gan y fenter gefnogaeth gref gan Weinidogion sy'n canolbwyntio ar wella cysylltedd ar gyfer yr holl gysylltiadau Cefnffyrdd rhwng y de a'r gogledd, gan ganolbwyntio'n arbennig ar rannau o'r A487, yr A483, yr A470 a'r A44 (Gn).

Y strategaeth drosfwaol yw ystyried gwelliannau i rannau o'r rhwydwaith lle mae cyfran

uchel o wrthdrawiadau cerbydau a dibynadwyedd amserau teithio gwael, gyda gyrwyr yn dioddef lefelau uwch o straen a rhwystredigaeth.

Amcanion yr Astudiaeth

- Gwella diogelwch ar y rhwydwaith i bob defnyddiwr;
- Lleihau straen / rhwystredigaeth gyrwyr;
- Gwella dibynadwyedd amserau teithio ar gyfer teithiau hwy ar y rhwydwaith ffyrdd strategol;
- Gwella cysylltedd rhwng cymunedau canolbarth Cymru;
- Diogelu a gwella cydnerthedd bioamrywiaeth a'r ecosystem;
- Cefnogi newid moddol i ddulliau llesol (cerdded a beicio) ar gyfer teithiau byrrach a thrafnidiaeth gyhoeddus neu'r trydydd sector ar gyfer teithiau hwy;
- Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr drwy gynllunio, adeiladu, gweithredu a chynnal y rhwydwaith ffyrdd yn fwy clyfar, gan gynnwys cefnogi cyfleusterau gwefru Cerbydau Trydan;
- Annog a chefnogi sectorau economaidd allweddol Canolbarth Cymru, megis twristiaeth, trwy wella cysylltiadau i'r gwaith, hamdden ac addysg;
- Creu rhwydwaith ffyrdd strategol mwy cydnerth, gan gynnwys rheoli effaith newid hinsawdd trwy ddiogelu'r seilwaith ar gyfer y dyfodol.

Pam y mae angen cynllun Llangurig?



A470 golygfa i'r De tuag at Gylchfan Llangurig

Cynllun Diogelwch Llangurig yr A470

Mae'r A470 yn Llangurig wedi'i nodi yn un o'r cynlluniau sy'n flaenoriaeth o fewn y rhaglen.

Mae hyd at chwe gwrthdrawiad wedi digwydd ar ran hon yr A470 o fewn y pum mlynedd diwethaf, gan gynnwys un ddamwain a achoswyd gan cerbydau yn goddiweddyd.

Ar hyd yr A470 i'r gogledd o gylchfan Llangurig, ceir rhan o ddaearfesuriaeth ffordd safon is sy'n arwain at lai o welededd i ddefnyddwyr y ffordd.

Gall hyn greu elfen o rwystredigaeth i yrwyr oherwydd eu bod yn cael eu cadw y tu ôl i gerbydau sy'n symud yn arafach yn teithio tua'r gogledd, heb y cyfle i fynd heibio iddynt yn ddiogel.

Beth a wnaed hyd yn hyn?

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) i'w ddefnyddio wrth ddatblygu, arfarnu a gwerthuso ymyriadau trafnidiaeth i sicrhau bod buddsoddiad mewn trafnidiaeth yn targedu'r mannau lle caiff yr effaith fwyaf. Hyd yn hyn, cwblhawyd Cam 1 a Cham 2 WelTAG ar gyfer Rhaglen Cynllun Diogelwch Canolbarth Cymru. Mae astudiaeth Cam 3 WelTAG ar waith sy'n cynnwys gwaith rhagarweiniol o ddatblygu dewisiadau ar safleoedd a nodwyd, gan gynnwys Cynllun Diogelwch Llangurig y A470. Isod ceir crynodeb o'r gwaith a wnaed hyd yn hyn drwy'r broses WelTAG.

Cynhaliwyd Astudiaeth Cam 1 WelTAG (Achos Strategol Amlinellol) i nodi rhestr hir o gynlluniau gwella posibl ar draws cefnffyrdd Canolbarth Cymru (A470, A487, A44 a'r A483). Argymhelliad y cam hwn oedd bwrw ymlaen â chynlluniau a oedd mewn ardal ddaearyddol agos i sicrhau manteision gorau'r rhaglen gyda phwyslais cychwynnol ar yr A470 a'r A487, gan gynnwys y rhan o'r A470 rhwng Pont-y-bat a Chaersws.

Cynhaliwyd Astudiaeth Cam 2 WelTAG (Achos Busnes Amlinellol) i nodi'r cynlluniau mwyaf cyflawnadwy a'r mwyaf buddiol ym mhob ardal ddaearyddol. Cafodd y cynlluniau ar y rhestr fer eu symud ymlaen i Gam 3, gan gynnwys Llangurig yr A470 gyda'r dulliau y cytunwyd arnynt i'w defnyddio yn y cam nesaf i ddarparu tystiolaeth ychwanegol i gefnogi'r arfarniad.

Mae Astudiaeth Cam 3 WelTAG (Achos Busnes Llawn) yn cael ei datblygu ar hyn o bryd sy'n cynnwys cynllunio rhagarweiniol y cynlluniau ar y rhestr fer gan gynnwys Llangurig yr A470 a gwaith asesu effaith ac arolygon ychwanegol. Bydd casgliad a cam hwn yn argymhell y cynlluniau sydd i'w cynllunio'n fanwl a'u hadeiladu.


Datblygu Datrysiad I'r A470 Llangurig

I ddechrau, ystyriwyd sawl syniad cysyniadol cychwynnol fel ateb posibl i'r problemau a nodwyd yn yr A470 Llangurig. Gwerthuswyd y rhain i ganfod pa raifyddai o fudd mwyaf i bob defnyddiwr ac yn bodloni amcanion Rhaglen Cynlluniau Diogelwch Canolbarth Cymru, a chafodd y datrysiad a ffefrir ei ddwyn ymlaen i gyfnodcynllunio rhagarweiniol.

Wrth ddatblygu datrysiad a chynllun, mae'n bwysig cael mewnbwn yr holl randdeiliaid y mae'r cynllun yn effeithio arnynt.

Mae'r ffigur gyferbyn yn dangos y broses ymgynghori a ddilynwyd i gael barn a syniadau'r holl bartïon â diddordeb, ac ar bob cam aethpwyd yn ôl at y cynllun er mwyn ymdrin ag unrhyw adborth.

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, adolygir unrhyw adborth a chaiff y cynllun ei ddiwygio yn ôl yr angen. Bydd Cam 3 WelTAG yn cael ei gwblhau a chaiff y cynllun ei argymhell ar gyfer cynllunio manwl ac adeiladu.



Disgrifiad o Gynllun Llangurig yr A470

Y cynnig yw cyflwyno Lôn Cyflymu Gwahaniaethol (DAL) newydd sy'n ymadael â chylchfan bresennol Llangurig i gyfeiriad y gogledd ar hyd yr A470 tuag at Lanidloes.

Byddai hyn yn darparu 250 metr o gyfle ffurfiol i oddiweddyd drwy lôn ychwanegol i yrwyr sy'n teithio tua'r gogledd, i basio'n ddiogel cerbydau sy'n symud yn arafach.

Byddai'r cynllun yn ei wneud yn ofynnol i gaffael tir trydydd parti y tu hwnt i ffiniau presennol y briffordd er mwyn lledu'r cerbyttffordd i ddarparu ar gyfer y lôn fwy llydan.

Mae safonau dylunio yn ei gwneud yn ofynnol i fynedfeydd preifat presennol i'r briffordd gael eu cau o fewn cynllun Lôn Cyflymu Gwahaniaethol, felly cynigir trefniadau mynedfa breifat arall.


Yn ogystal ag ychwanegu'r DAL newydd, cynigir gwella rhan o ddaearfesuriaeth ffyrdd safon is sy'n bodoli eisoes tua diwedd y cynllun



A470 Golygfa l'r Gogledd o gylchfan Llangurig


Cynllun Presennol

Golygfa o'r Awyr o'r Cynllun Presennol yn edrych tua'r De-Ddwyrain



Cynllun Arfaethedig

Argraff Artist Golygfa o'r Awyr o'r Cynllun yn edrych tua'r De-Ddwyrain



Cynllun Arfaethedig

Argraff Artist Golygfa o'r Awyr o'r Cynllun yn edrych tua'r De



Cynllun Arfaethedig

Argraff Artist Golygfa o'r Awyr o'r Cynllun yn edrych tua'r Gorllewin



Cynllun Arfaethedig

Argraff Artist Golygfa o'r Awyr o'r Cynllun yn edrych tua'r Dwyrain



Cynllun Arfaethedig

Argraff Artist Golygfa o'r Awyr o'r Cynllun yn edrych tua'r Gogledd-ddwyrain



Crynodeb o fuddion y cynllun

Profwyd y cynllun arfaethedig o'i gymharu ag amcanion cyffredinol y Rhaglen a'r pedwar maes arfarnu WeITAG canlynol i sicrhau bod y cynnig yn mynd i'r afael â'r problemau a nodwyd a'i fod yn cyfrannu'n gadarnhaol at:

- Yr Economi
- Yr Amgylchedd
- Agweddau Cymdeithasol a Diwylliannol
- Gwerth am arian

Mae gan y cynllun y manteision canlynol:

- ✓ Bydd diogelwch adran hon yr A470 yn cael ei gwella gan fod 2 o'r damweiniau o fewn y 5 mlynedd diwethaf wedi'u hachosi gan symudiadau goddiweddyd neu welededd.
- ✓ Lleihau straen/rhwystredigaeth gyrwyr sy'n teithio tua'r gogledd gan fod y Lôn Cyflymu Gwahaniaethol yn rhoi cyfle i yrwyr oddiweddyd yn ddiogel cerbydau sy'n symud yn araf.
- ✓ Amseroedd teithio mwy dibynadwy i gerbydau yn teithio i gyfeiriad y gogledd oherwydd dileu'r oedi a achosir gan gerbydau sy'n symud yn araf, gan wella cysylltedd rhwng Llanfair-ym-Muallt a'r Drenwydd. Potensial ar gyfer oedi tymor byr yn ystod y gwaith adeiladu, ond caiff yr effeithiau eu lleihau cymaint â phosibl.
- ✓ Bydd nifer y mynedfeydd preifat â mynediad uniongyrchol i'r A470 yn cael eu lleihau.
- ✓ Adnewyddu asedau'r briffordd megis draenio a gosod wyneb i leihau'r angen am waith cynnal a chadw yn ystod y 10 mlynedd nesaf.
- ✓ Plannu a thirlunio i wella bioamrywiaeth a chydnerthedd yr ecosystem. Effaith weledol a thirwedd tymor byr wrth i'r plannu lliniarol sefydlu ei hun.

Casgliad a'r Camau Nesaf

Casgliad

Mae Cynllun Diogelwch Llangurig yr A470 yn mynd i'r afael â'r problemau a nodwyd ar y gyffordd ac yn darparu nifer o fuddion ychwanegol sy'n bodloni amcanion Rhaglen Cynllun Diogelwch Canolbarth Cymru.

Camau nesaf

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, ystyrir yr adborth a gafwyd yn y cam nesaf o ddatblygu cynlluniau manwl.

Bydd cynllunio manwl yn symud yn ei flaen yn ystod 2021, a bwriedir dechrau adeiladu yng ngaeaf 2021/22.

Sut gallaf i wneud sylw?

Rydym yn dymuno clywed eich barn ar ein cynllun arfaethedig. Gallwn wedyn ystyried eich barn a'ch sylwadau wrth lunio'r cynllun terfynol. Mae sawl ffordd o roi sylwadau:

- Llenwi'r ffurflen ymateb ar wefan y prosiect: <https://llyw.cymru/a470-llangurig>
- Anfon neges e-bost i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru: ymholiadau@acgcc.org.uk gyda'r pennawd 'Cynllun Diogelwch Llangurig yr A470'
- Gellir hefyd gwneud cais am wybodaeth yr Ymgynghoriad Cyhoeddus trwy ddefnyddio Microsoft Teams. Anfonwch e-bost i ymholiadau@acgcc.org.uk gyda'r pennawd 'Cynllun Diogelwch Llangurig yr A470'
- Ysgrifennu at: Cynllun Diogelwch Llangurig yr A470, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Adeiladau'r Llywodraeth, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, LL31 9RZ

I helpu i lunio ein cynllun terfynol, cyflwynwch eich ymateb erbyn 1 Ebrill 2021.

Camau Nesaf

Byddwn yn adolygu'r holl sylwadau ac awgrymiadau ar ôl i gyfnod adborth yr ymgynghoriad gau. Caiff y rhain eu dadansoddi a'u hystyried yn rhan o'r broses gynllunio. Byddwn yn llunio adroddiad i grynhoi'r ymatebion adborth hefyd.

Bydd y newyddion diweddaraf am hynt y cynllun ar gael ar wefan y prosiect: <https://llyw.cymru/a470-llangurig>

Ymgynghori Ffurflen Ymateb

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

C1: Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau y rheswm dros eich diddordeb yn yr ymgynghoriad hwn? (un yn unig)

Preswlydd lleol
Perchennog busnes lleol
Yn gyflogedig yn lleol
Ymwelydd â'r ardal
Ddim yn lleol ond â diddordeb yn y cynllun

Arall (nodwch):

--

C2: A ydych chi o'r farn y dylai'r A470 yn Llangurig gael ei gwella?

Ydw
Nac ydw

C3: Dywedwch wrthym beth yr ydych yn ei hoffi ynghylch y cynllun arfaethedig. (ticiwch y rhai perthnasol)

- a) Cyfle I oddiweddyd yn ddiogel
- b) Gwell diogelwch
- c) Amseroedd teithio yn fwy dibynadwy
- d) Tirlunio a phlannu
- e) Adnewyddu asedau'r priffyrdd dan gannwys draenio ac arwynebau
- f) Cau mynedfeydd preifat uniongyrchol i'r A470

Arall (nodwch isod)

--

Sylwadau:

--

C4: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ynghylch y cynllun arfaethedig?

Cwestiwn A: Mae dyletswydd arnom i ystyried effeithiau ein polisiau ar yr iaith Gymraeg, o dan ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynnig yn ei gael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a phaidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau allai fod, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Cwestiwn B: Eglurwch hefyd sut ydych chi'n credu y gall y cynnig gael ei lunio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a phaidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn C: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i sôn amdanynt:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi. I gadw eich ymateb yn ddienw (gan gynnwys cyfeiriadau ebost) ticiwch y blwch.

☐